




Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Cynllun Gweithredu Digidol Llywodraeth Cymru 2017-2020



wedi ei diweddaru Hydref 2017

“Mae angen inni  
fynd yn ddigidol  
wrth ddarparu  
gwasanaethau'r  
Llywodraeth.”

**Symud Cymru Ymlaen**

# Rhagair gan Julie James, Y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth



Bydd unrhyw un sy'n fy adnabod i yn gwybod bod gen i dân yn fy mol lle mae trawsnewid digidol, gwasanaethau digidol a gwneud pethau'n well yn y cwestiwn. Mae'r pethau hyn yn mynd law yn llaw â data – adnodd gwerthfawr sydd â'r grym i drawsnewid y gwasanaethau a gynigiwn a'r penderfyniadau a wnawn.

Mae Cynllun Gweithredu Digidol Llywodraeth Cymru yn bwysig i mi oherwydd mae'n amlinellu sut mae'r sefydliad yn parhau i wella'r ffordd mae'n gweithio ac yn cyflawni busnes Llywodraeth – boed hynny'n darparu taliadau i ffermwyr, gwybodaeth i fusnesau, trwyddedu a rheoli cartrefi gofal neu'r llu o wasanaethau eraill mae'n eu darparu.

Mae arweinyddiaeth effeithiol yn hanfodol i sicrhau trawsnewid digidol heb ei ail. Dyma'r rheswm pam rwy'n cadeirio Grŵp Digidol a Data Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys uwch aelodau staff o bob rhan o Lywodraeth Cymru. Mae'n cynnig fforwm ar gyfer dysgu, cydweithio a rhannu arfer da mewn perthynas â'r byd digidol a data.

Mae'n hollbwysig i mi bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion dinasyddion Cymru – ac mae llawer o'r rhain yn gweithredu mewn byd digidol. Mae'r Cynllun hwn yn cynnig fframwaith i helpu i gyflawni hyn.

# Rhagair gan Shan Morgan, Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru



Yn 2014, cychwynnodd Llywodraeth Cymru ar daith trawsnewid digidol wrth weithredu ei Chynllun Gweithredu Digidol cyntaf. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ers hynny yn sgil penodi Prif Swyddog Digidol wedi'i gefnogi gan dîm strategaeth bach, creu Grŵp Digidol a Data, gweithredu rhaglen ddysgu ddigidol ar gyfer staff a chyflwyno amrywiaeth o wasanaethau digidol newydd a gwell.

Mae rhagoriaeth o ran gallu a chyflawni digidol yn hanfodol fel sail fel y gallwn ddarparu gwasanaethau'n effeithiol. Rwy'n falch dros ben fod Bwrdd Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu diwygiedig hwn sy'n cynnwys targedau mwy heriol ac uchelgeisiol.

Mae troi'n ddigidol yn golygu llawer o bethau i lawer o bobl. Gall olygu gwneud cais am wasanaeth neu wneud taliad ar-lein yn hwylus. Gall olygu cael sgwrs am roi organau ar gyfryngau cymdeithasol. Gall olygu sicrhau bod deddfwriaeth a pholisïau newydd yn cael eu diogelu i'r dyfodol. Gall olygu cyfrannu at drafodaeth am benderfyniadau sy'n effeithio ar y man lle rydych chi'n byw neu'n gweithio drwy adnoddau cydweithio ar-lein. Gall olygu pob un o'r rhain a llawer mwy.

Mae gallu digidol yn rhan annatod o'n hamcanion strategol eisoes. Roedd Symud Cymru Ymlaen yn cydnabod pwysigrwydd cyflawni digidol. Mae'r ffyrdd newydd o weithio sy'n cael eu cyflwyno gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn pwysleisio pwysigrwydd cynnwys pawb yng Nghymru yn ein gwaith, a gwella cysylltiadau.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi gwneud cynnydd clodwiw yn y maes digidol ond mae lle i wneud mwy o lawer. Nod y camau gweithredu yn y cynllun yw ein symud at ddiwylliant digidol cryf lle mae digidol wrth wraidd ein polisïau a'n strategaethau ac yn sail i'n prosesau ac amcanion busnes. Mae'n agenda bwysig a chyffrous – rwy'n edrych ymlaen at ei gwireddu.

# Cyflwyniad

## Cynllun Gweithredu Digidol – 2014-2017

1. Roedd y Cynllun Gweithredu Digidol cyntaf yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer gwaith digidol Llywodraeth Cymru, ac yn nodi sut y gallem ei gyflawni. Roedd yn canolbwyntio ar sgiliau digidol, arweiniad, defnyddio technoleg ddigidol ym maes llunio polisïau, gwasanaethau, a data. Dogfen fewnol oedd y cynllun hwnnw, fel y cynllun hwn, a'i nod oedd grymuso staff Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau digidol rhagorol.
2. Roedd yn cyflwyno cyfres o gamau gweithredu, ac rydym wedi gwneud cynnydd o ran pob un ohonynt. Mae'r mwyafrif llethol wrthi'n cael eu rhoi ar waith neu wedi'u rhoi ar waith. Mae'r cynllun gweithredu digidol hwn yn adeiladu ar y llwyddiant hwnnw, gan ganolbwyntio ar themâu tebyg, ond mae'n fwy uchelgeisiol na'r cynllun gwreiddiol.

## Ein gweledigaeth a'n nodau

3. Rydym am ddefnyddio diwylliant, arferion, prosesau a thechnolegau oes y rhyngwyd i drawsnewid y ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n gweithredu, a hynny oherwydd ein bod yn credu bod angen i ni:
  - i. Bod yn yr un man â'r dinasyddion
  - ii. Grymuso dinasyddion Cymru
  - iii. Defnyddio ein hadnoddau mewn ffordd effeithlon
4. Mae technoleg ddigidol yn gyfle inni drawsnewid ein gallu i gyflawni'r nodau hyn. Mae'r cynllun hwn yn darparu'r fframwaith ar gyfer cyflawni hyn.

## Meysydd gwaith

5. Gan adeiladu ar ffocws cynllun gweithredu digidol gwreiddiol Llywodraeth Cymru, mae'r cynllun hwn yn rhoi sylw i'r meysydd a ganlyn:
  - i. **Arweiniad:** cael arweinwyr digidol hyderus sy'n gallu ysbrydoli ar bob lefel mewn timau, a'u grymuso i herio ac i wella.
  - ii. **Trawsnewid:** rhoi newid sefydliadol sylweddol ar waith i gyflawni mwy o'n gwaith yn ddigidol. Byddwn yn gwneud hyn drwy gynllunio a gweithredu gwasanaethau cydgysylltiedig gan ddefnyddio dull traws-sefydliadol.
  - iii. **Sgiliau a'r gweithlu:** rhoi hyder i'r staff a sicrhau bod yr offer a'r technegau iawn ar gael iddynt er mwyn darparu gwasanaethau da.
  - iv. **Gwasanaethau platform:** darparu systemau a dull o aildefnyddio llawer o'r pethau yr ydym eisoes wedi'u creu.
  - v. **Deialog ac ymgysylltu digidol:** creu mwy o gyfleoedd i bobl fod yn rhan o'r broses o ddatblygu a chyflawni ein gwaith – yn enwedig llunio polisïau a deddfwriaeth.
  - vi. **Data:** sicrhau bod ein data'n agored a chynyddu ein gallu i'w rhannu a'u haildefnyddio.

# Beth yw gwasanaeth digidol da?

6. Mae gwasanaeth digidol da'n darparu'r hyn y mae defnyddwyr yn disgwyl ei gael – gwasanaethau modern, effeithlon, hwylus a boddhaus ar-lein. Mae'n ymwneud â chynllunio a darparu gwasanaethau integredig o'r dechrau i'r diwedd ar sail y bobl a fydd yn eu defnyddio – nid dylunio gwasanaethau sy'n gyfleus i ni neu sy'n seiliedig ar ein strwythurau ni.
7. Mae Llywodraeth Cymru yn unigryw yn y gwasanaethau mae'n eu cynnig. Rydym yn darparu ystod eang o wasanaethau ac rydym yn creu polisïau yng Nghymru mewn ffordd wahanol i unrhyw gorff arall. I gyflawni ar ran dinasyddion Cymru, mae angen inni ddarparu ein gwasanaethau'n ddigidol, ac mae angen inni eu darparu'n dda.
8. Dylai gwasanaeth digidol da a ddarperir gan Lywodraeth Cymru:
  - a. cael ei gynllunio ar sail y bobl a fydd yn ei ddefnyddio
  - b. bod yn hawdd ac yn hwylus i'w ddefnyddio er mwyn i bobl lwyddo ar eu hymgais gyntaf
  - c. cael ei adolygu a'i ddiweddarau ar sail adborth
  - d. sicrhau bod nodweddion preifatrwydd a diogelwch yn cael eu hystyried
  - e. gwneud darpariaeth ar gyfer pobl na fyddant yn defnyddio'r gwasanaeth ar-lein, neu na fydd modd iddynt wneud hynny.
9. Nid yw darparu gwasanaethau digidol da mor rhwydd ag y mae'n ymddangos ar yr olwg gyntaf. Mae'n rhaid siarad â defnyddwyr i ddod i wybod beth y maent am ei gael yn hytrach na beth yr ydych chi am ei roi iddynt – ac yna mae'n rhaid darparu'r hyn y maent wedi gofyn i'w gael. Mae hefyd yn dibynnu ar gael seilwaith a gwasanaethau TGCh priodol, fel platfformau cyffredin, rhaglenni y gellir eu hailddefnyddio a chanllawiau pensaernïol cyffredin.

## Astudiaeth achos – defnyddio adborth gan ddefnyddwyr

Lluniwyd y cwrs ymwybyddiaeth ddigidol fel cwrs diwrnod i roi cyflwyniad sylfaenol i dechnoleg ddigidol. Roedd yn targedu'r rheini a oedd yn gwybod dim neu fawr ddim am dechnoleg ddigidol. Cynhaliwyd cyrsiau peilot i gael adborth gan ddefnyddwyr. Yn ôl yr adborth, roedd rhai aelodau staff am gael cwrs lefel uwch ac roedd eraill yn teimlo bod y cwrs yn diwallu eu hanghenion.

O ganlyniad i'r adborth, rhannwyd y cwrs yn ddau gwrs hanner diwrnod i'w cynnal, y naill ar ôl y llall, ar yr un diwrnod. Gall staff ddewis i ba ran y maent am fynd. Mae sesiwn y bore'n canolbwyntio ar ymwybyddiaeth ddigidol sylfaenol ac mae sesiwn y prynhawn yn addas i'r rheini sy'n meddu ar sgiliau digidol ac sydd am drafod sut i'w defnyddio wrth eu gwaith mewn ffordd fwy ymarferol. Ers cyflwyno'r newid hwn, cafwyd adborth cadarnhaol ynghylch y cyrsiau, ac mae rhestr aros.

10. Yn y gweithle, darperir amryw o dechnolegau ac offer i sicrhau bod modd i staff weithio mewn ffordd fodern. Mae angen inni ddefnyddio'r rhain a gwneud y gorau ohonynt. Maent yn hwyluso ffordd fwy ystwyth a chysylltiedig o weithio, ac maent yn sylfaen i weithlu sy'n gweithio'n ddigidol.
11. Mae ein menter Hybu Hyblygrwydd sy'n cael ei threialu yn swyddfa Merthyr Tudful wedi pennu llawer o gyfleoedd newydd i ddefnyddio mwy o ddulliau digidol yn ein gwaith. Yn y Lolfa Fusnes ym Merthyr Tudful, ceir manau cyfarfod newydd, gan gynnwys technoleg i'n helpu i gydweithio'n fewnol ac yn allanol. Mae'r polisiau gweithio hyblyg newydd yn gyfle i'r staff weithio mewn gwahanol fannau ar wahanol adegau. Rydym yn ystyried sut rydym yn cyflwyno'r model hybu hyblygrwydd ar draws swyddfeydd eraill Llywodraeth Cymru.

# Lle yr ydym ni nawr a lle yr ydym am fod

## Ein sefyllfa ar hyn o bryd

12. Mae'n bwysig ein bod yn cadw llygad ar ein cynnydd o ran defnyddio technoleg ddigidol. Dangosodd asesiad blaenorol gennym ein bod ar Lefel 2 yn y Fframwaith Galluogrwydd Digidol<sup>1</sup>:

“Rhai gwasanaethau digidol, ond nid ydynt o ansawdd da yn aml. Timau digidol ar waith ond yn tueddu i fod yn elfennau ar wahân mewn unedau busnes neu dimau rhaglen, a chyfyngedig yw eu cyllideb a'u cylch gwaith. Nid oes uwch-reolwyr digidol.”

13. Gwnaed cynnydd sylweddol yn ystod oes Cynllun Gweithredu gwreiddiol Llywodraeth Cymru. Rydym wedi penodi Prif Swyddog Digidol a chreu tîm strategaeth, sefydlu Grŵp Digidol a Data o dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth i roi arweiniad a phennu cyfeiriad, rhoi rhaglen dysgu digidol ar waith ar gyfer staff, a chyflwyno amryw o wasanaethau digidol newydd a gwell.

14. Cyflawnwyd Lefel 3 y Fframwaith ac rydym yn hunanasesu yn erbyn Lefel 4 erbyn hyn:

“Mae uwch-reolwyr yn gwneud cynnydd sylweddol o ran rhoi'r weledigaeth a'r cynllun ar waith. Cafodd prosesau ar draws y sefydliad eu trosi'n rhai digidol, ac maent yn darparu manteision ac arbedion effeithlonrwydd sylweddol. Mae'r gwaith hyrwyddo'n cynyddu.”

## Ein gweledigaeth

15. Erbyn 2020, rydym am gyrraedd Lefel 5:

“Mae darpariaeth ddigidol wrth wraidd ein polisiau a'n strategaeth, ac mae'n cyfrannu at bob proses ac amcan busnes. Mae'r diwylliant digidol yn gadarn: mae'n ystwyth, yn arloesol ac yn ymatebol, ac mae'n canolbwyntio ar y defnyddwyr.”

---

<sup>1</sup> Addaswyd o'r Fframwaith a gyhoeddwyd yn (<https://www.gov.uk/government/publications/government-digital-strategy/government-digital-strategy>) a'r (<http://ec.europa.eu/digital-agenda/en/european-digital-capability-framework>) a gyflwynwyd gan Kieran O'Hea (Digitigm) yn ystod y cyfnod ymgynghori ar Agenda Ddigidol Ewrop.



# Y cyd-destun strategol

## Cymru sy'n fwy cysylltiedig

16. Un o'n blaenoriaethau yw creu Cymru sy'n fwy cysylltiedig.<sup>2</sup> Mae'r rhyngrwyd wedi bod yn gwneud hyn ers iddi gael ei chreu – mae'n dod â grwpiau ynghyd na fyddai modd iddynt ryngweithio â'i gilydd fel arall, a hynny drwy fforymau, drwy'r cyfryngau cymdeithasol, a thrwy ddulliau eraill. Ers dyfodiad apiau a ffonau clyfar, mae hyn wedi cyrraedd lefel newydd. Drwy ganolbwyntio'n llwyr ar ddarparu'r hyn y mae defnyddwyr am ei gael, mae wedi dod yn haws i bobl ar draws y byd ryngweithio â'i gilydd. Rydym yn defnyddio'r offer a'r technolegau hyn eisoes, ond mae angen inni wneud hynny'n well ac yn amlach, gan ddefnyddio'r sianeli a'r offer y mae ein cwsmeriaid yn eu defnyddio.

## Cymru sy'n fwy cyfartal

17. Un o'n blaenoriaethau eraill yw creu Cymru sy'n fwy cyfartal. Mae'r datblygiadau digidol wedi creu llawer o adnoddau hawdd eu defnyddio sydd ar gael i bawb am ddim mewn llawer o ieithoedd. Mae ffyrdd newydd o rannu gwybodaeth, ffeiliau a chod sy'n dod yn fwy a mwy cyffredin. Mae'r economi rannu, lle gall pobl rentu adnoddau na fyddent yn cael eu defnyddio fel arall, fel ceir a thai, yn creu mwy o effeithlonrwydd. Mae cyllid cyfrannu torfol ar gyfer prosiectau yn helpu pobl i roi syniadau da ar waith.
18. Pan fydd prosesau'n gymhleth neu'n fiwrocraataidd, gall fod mai dim ond rhai sectorau o gymdeithas sy'n gallu defnyddio gwasanaethau. Mae holl ddefnyddwyr ein gwasanaethau yn disgwyl gwasanaeth o'r un safon gennym ni, ac mae angen iddynt gael gwasanaeth o'r fath.
19. Mae sefydliadau'r trydydd sector yn hollbwysig o ran cyflawni ein hamcanion digidol. Mae llawer o elusennau'n defnyddio dulliau digidol i roi llais i gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol. Er bod lefelau'r sgiliau digidol yng Nghymru'n cynyddu o hyd, mae'n bwysig nad ydym yn gadael pobl ar ôl. Mae'r Fframwaith Sicrhau Cynhwysiant Digidol (<http://gov.wales/topics/science-and-technology/digital/digital-inclusion/?skip=1&lang=cy>) yn nodi llawer o'r camau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i wella sgiliau digidol yng Nghymru.
20. Rydym yn sylweddoli na fydd pawb am ddefnyddio ein sianeli digidol ym mhob achos, ar bob adeg. Mae sawl rheswm am hyn, gan gynnwys hyder, mynediad, angen a sgiliau. Mae angen inni sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gennym yn hygyrch ac yn hwylus.

<sup>2</sup> <http://llyw.cymru/docs/caecd/publications/161104-well-being-cy.pdf>

## Astudiaeth achos – Y Sgwrs Go Iawn

Mae digwyddiadau'r Sgwrs Go Iawn yn ategu'r gwaith o ddatblygu meysydd polisi ac yn annog cyflogwyr, partneriaid a phobl ifanc i ymgysylltu ac i "sgwrsio" â'i gilydd. Ymhlith y themâu a drafodwyd mae Profiad Gwaith, Rhwystrau Real ac Ymddangosiadol rhag Cael Gwaith (sgiliau meddal a chaled), Ymgysylltu â Phobl Ifanc a Dilyniant, Prentisiaethau, yr Adolygiad o Gymwysterau, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Entrepreneuriaid Ifanc yng Nghymru, a'r Gymraeg.

Roedd digwyddiadau yn canolbwyntio ar annog entrepreneuriaeth ymhlith pobl ifanc. Defnyddiwyd sianeli'r cyfryngau cymdeithasol i hybu'r digwyddiad ymhlith pobl ifanc, ac yn ystod y digwyddiad ei hun bu'r cyfranogwyr yn rhoi eu barn drwy ddefnyddio system bleidleisio ddigidol a Twitter. Defnyddiwyd y canlyniadau amser real i herio canfyddiadau ac i sbarduno trafodaeth ymhlith y cyfranogwyr. Ochr yn ochr â'r drafodaeth ansoddol, roedd y data'n rhoi cymhariaeth gref o'r safbwyntiau yn ôl y math o gyfranogwr ac yn dangos gwahaniaethau rhanbarthol. Cafodd yr ymatebion digidol o'r digwyddiad a'r sylwadau a rannwyd drwy'r cyfryngau cymdeithasol eu dadansoddi i gyflwyno canfyddiadau i'r Gweinidogion ac i osod sylfaen ar gyfer y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid gyfredol.

## Y Gymraeg

21. Mae technoleg ddigidol yn creu cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau dwyieithog mewn ffordd nad oedd yn bosibl o'r blaen. Mae Safonau'r Gymraeg wedi darparu fframwaith inni ddarparu gwasanaethau digidol rhagorol. Mae ein Cynllun Gweithredu Technoleg a Chyfryngau Digidol Cymraeg yn nodi sut y gallwn ddefnyddio technoleg i gefnogi'r Gymraeg.

## Technoleg ddigidol a llewyrch economaidd

22. Mae technoleg ddigidol hefyd yn hollbwysig i'r economi, i swyddi a thwf. Yn ôl adroddiad gan Eskills, mae economi ddigidol y DU yn tyfu 32% yn gyflymach na gweddill yr economi ac yn creu swyddi 2.8 gwaith yn gyflymach. Mae hyn yn dangos y rhan bwysig y bydd technoleg ddigidol yn ei chwarae o ran creu swyddi yn yr economi fodern.<sup>3</sup>
23. Gan fod angen sgiliau digidol o ryw fath ar gyfer 90% o'r swyddi newydd ar draws yr economi gyfan<sup>4</sup>, ni ddylid ystyried mwyach fod sgiliau digidol yn berthnasol i sector penodol. Gan fod technoleg yn datblygu'n gyflym, bydd 65% o blant ysgol yn gweithio mewn swyddi nad ydynt yn bodoli eto<sup>5</sup>, Mae hyn yn dangos ei bod yn bwysig mynd i'r afael ag anghenion cyflogwyr yn y dyfodol, yn ogystal â'r bwlch sgiliau sy'n bodoli ar hyn o bryd.

<sup>3</sup> Eskills UK technology Insights 2012

<sup>4</sup> Pwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg Tŷ'r Cyffredin – Adroddiad ar yr Argyfwng Sgiliau Digidol

<sup>5</sup> Pwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg Tŷ'r Cyffredin – Adroddiad ar yr Argyfwng Sgiliau Digidol

24. Gellir cael buddion economaidd helaeth drwy ddefnyddio technolegau digidol, ac mae lluo o gyfleoedd ar gael o hyd i Gymru fanteisio arnynt. Mae ymchwil yn amcangyfrif mai 3,110 o gwmnïau a oedd yn gweithredu yn y sector TGCh ehangach yn 2015, sef 2.81% o holl fusnesau Cymru. Ymhellach, amcangyfrifwyd bod y sector TGCh yn cefnogi 39,171 o'r bobl mewn gwaith, gan gyfrif am 3.07% o'r holl gyflogaeth yng Nghymru.
25. Mae adroddiad Tech Nation 2017 yn enwi Caerdydd ac Abertawe fel dau o brif glystyrau technoleg ddigidol Cymru. Mae'r ddwy ddinas yn ymddangos ymhlith y 10 clwstwr uchaf yn y DU o ran twf cyflogau digidol.
26. Mae ein rhaglen Cyflymu Cymru'n ehangu band eang cyflym iawn ledled Cymru, gan ei gwneud hi'n haws ac yn gyflymach i bobl sy'n manteisio ar fand eang i ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus ar-lein.

## **Gwasanaethau digidol Llywodraeth y DU**

27. Nid ni yw'r unig gorff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae Llywodraeth y DU yn darparu ystod eang o wasanaethau, yn cynnwys gwneud cais i gael pasbort, cyflwyno ffurflen dreth a threthu car.
28. Mae Strategaeth Drawsnewid Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd yn gynharach yn 2017 yn diffinio gweledigaeth ddigidol Llywodraeth y DU. Bwriedir i'r strategaeth drawsnewid y Llywodraeth a rhoi defnyddwyr wrth galon y gwasanaethau a ddarperir. Mae'n cydnabod bod rhaid defnyddio technoleg ddigidol i lunio polisïau a'u rhoi ar waith yn fwy effeithiol. Mae'n disgrifio sut y gall moderneiddio ac awtomeiddio gwasanaethau greu arbedion effeithlonrwydd a sicrhau bod modd symud pobl i weithio mewn gwasanaethau rheng flaen. Mae'n cydnabod bod angen i weision sifil gael y sgiliau, yr offer a'r technegau iawn er mwyn iddynt ddarparu gwasanaethau digidol rhagorol. Mae'r rhain i gyd yn berthnasol i'r Cynllun hwn hefyd.

## **Gwasanaethau sector cyhoeddus Cymru**

29. Mae pobl Cymru hefyd yn cael gwasanaethau gan gyrff sector cyhoeddus yng Nghymru megis llywodraeth leol, iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Mae'n bwysig bod y gwasanaethau hyn mor gydgysylltiedig a di-dor â phosibl, boed hynny'n gwneud apwyntiad gyda'r meddyg teulu, talu treth y cyngor neu'n cadarnhau dyddiadau tymhorau'r ysgol. Mae Digidol yn Gyntaf<sup>6</sup>, strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus digidol yng Nghymru, yn amlinellu sut dylai'r gwasanaethau hyn gael eu darparu.

<sup>6</sup> <http://llyw.cymru/topics/science-and-technology/digital/public-services/digital-first/?lang=cy>

# Y ddadl o blaid newid

## Bod yn yr un man â'r dinasyddion

30. Mae'r byd modern yn fyd digidol. Mae dinasyddion yn disgwyl gwasanaethau digidol fel rhan o wasanaethau cyhoeddus modern. Yn ôl adroddiad 2017 Ofcom ar y farchnad gyfathrebu, mae gan 74% o oedolion yng Nghymru yn defnyddio ffôn clyfar, mae 61% o aelwydydd yn berchen ar lechen, ac mae 53% o ddefnyddwyr y rhyngwrwd yng Nghymru yn defnyddio gwasanaethau negeseua ar-lein<sup>7</sup>. Mae'n amlwg bod llawer o bobl yn defnyddio technoleg yn eu bywyd bob dydd.

## Grymuso dinasyddion Cymru

31. Mae technoleg ddigidol yn caniatáu i bobl wneud pethau na fyddai modd iddynt eu gwneud fel arall ac mae'n rhyddhau amser i wneud pethau eraill. Mae'n aml yn haws ac yn gyflymach gwneud pethau ar-lein, fel cymharu prisiau ynni ar-lein neu edrych ar amserlenni teithio.

## Defnyddio ein hadnoddau'n effeithlon

32. Mae'r gwasanaethau digidol a ddarperir gan y llywodraeth wedi lleihau cost trafodion digidol gyda defnyddwyr, gyda'r gost 20 gwaith yn is na chost trafodion dros y ffôn mewn rhai achosion<sup>8</sup>. Drwy ffrydio digwyddiad yn fyw, gellir cyrraedd cynulleidfa llawer ehangach am fawr ddim cost ychwanegol. Drwy i sefydliadau cyhoeddus rannu data, gallant dargedu eu hadnoddau'n well a lleihau gwastraff. Drwy i wasanaethau rannu platfformau, gall fod modd lleihau costau'n sylweddol. Gan fod y pwysau ar wasanaethau cyhoeddus yn cynyddu o hyd, ni allwn anwybyddu'r manteision hyn.

## Pam fod angen cynllun arnom ni?

33. Rydym eisoes yn darparu gwasanaethau digidol. Nod y cynllun hwn yw sicrhau ein bod yn mynd ati mewn ffordd gydlynol i ddarparu mwy o wasanaethau digidol, a'r rheini'n wasanaethau gwell, gan sicrhau bod y bobl sy'n eu defnyddio wrth galon y gwasanaethau hynny.

<sup>7</sup> [https://www.ofcom.org.uk/\\_\\_data/assets/pdf\\_file/0010/105004/wales-internet-online.pdf](https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0010/105004/wales-internet-online.pdf)

<sup>8</sup> Data'r Asiantaeth Safonau Gyrru a ddyfynnir yn Adroddiad Effeithlonrwydd Digidol Llywodraeth y DU, <http://www.publications.cabinetoffice.gov.uk/digital/efficiency/#introduction>

# Ein cynllun: Arweiniad

## Beth mae arweiniad digidol yn ei gynnig

34. I fod yn arweinydd, rhaid pennu cyfeiriad ac arwain trwy esiAMPL. Mae'n golygu bod yn esiAMPL i eraill a'u hysbrydoli drwy eich gweithredoedd chi. I fod yn arweinydd digidol, rhaid dangos i eraill beth y gall darpariaeth ddigidol ei gyflawni, gan agor eu llygaid i'r ddadl o blaid newid. Rhaid bod yn hyderus a grymuso'r bobl o'ch cwrmpas.
35. Mae codi ymwybyddiaeth o'r hyn y gall technoleg ddigidol ei gynnig, a chynyddu'r brwdfrydedd yn ei gylch, yn rhan ganolog o'r cynllun gweithredu hwn, ac mae angen arweinwyr gwyach i gyflawni ein huchelgais. Gall unrhyw un roi arweiniad – ni waeth ar ba lefel y mae'n gweithio ac ni waeth faint o brofiad digidol sydd ganddo. Y cyfan sydd ei angen yw'r gallu i sylwi ar gyfle, newid pethau a'u gwneud nhw'n well.
36. Gall arweinwyr digidol alluogi staff ar bob lefel i weithio'n effeithiol ac yn rhagweithiol i feithrin gallu. Gall arweinwyr digidol da a hyderus ysbrydoli a grymuso staff i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, gan drawsnewid a moderneiddio'r sefydliad ar yr un pryd.

## Y sefyllfa ar hyn o bryd

37. Ers cyhoeddi'r cynllun gweithredu digidol gwreiddiol, mae arweiniad digidol wedi datblygu'n sylweddol. Rydym wedi creu rhwydwaith o arweinwyr digidol a data ar draws y sefydliad sy'n gyfrifol am roi arweiniad cryf, llawn gweledigaeth, yn eu meysydd cyfrifoldeb – tu mewn i Lywodraeth Cymru ac yn y sectorau y maent yn eu cynrychioli.
38. Mae'r grŵp hwn yn adrodd i'r Grŵp Digidol a Data sy'n cael ei gadeirio gan y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth, ac mae'n fforwm i gydweithredu a chydweithio. Mae hefyd yn goruchwyllo ac yn llywio'r trawsnewid i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus digidol gwell yng Nghymru drwy wneud dewisiadau effeithiol am dechnoleg ar sail penderfyniadau da sy'n seiliedig ar ddata.
39. Mae gennym Brif Swyddog Digidol sy'n gweithio gyda chymorth tîm bach i gefnogi ein gwasanaethau digidol, eu galluogi, a'u cydlynu. Y Prif Swyddog Digidol a'r tîm sy'n arwain y gwaith o bennu ac o rannu arferion gorau, ac yn helpu i ddod â phobl neu brosiectau sy'n rhannu diddordeb cyffredin ynghyd. Mae'r tîm yn defnyddio ei rôl drosfwaol traws-sefydliadol unigryw i wella gwasanaethau, nodi cyfleoedd a chysylltu pobl er mwyn darparu gwasanaethau digidol mwy cydgysylltiedig.

## Ein nodau

40. Rydym am i'r holl staff ystyried y cyfle y mae technoleg ddigidol yn ei roi iddynt wrth eu gwaith bob dydd. Rydym am rymuso'r holl staff a sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt i herio arferion gweithio neu wasanaethau sydd wedi dyddio er mwyn eu gwella a darparu'r hyn y mae pobl yn ei ddisgwyl gan wasanaeth digidol modern.
41. Rydym hefyd am sicrhau bod yr holl staff yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gennym yn bodloni ein safonau gwasanaeth, a'u darparu mewn ffordd ystywyth.

## Camau gweithredu o ran arweinyddiaeth

1. Bydd Swyddfa'r Prif Swyddog Digidol yn parhau i roi arweiniad a chymorth i arweinwyr y Grŵp Digidol a Data ar draws Llywodraeth Cymru.
2. Bydd arweinwyr y Grŵp Digidol a Data'n gweithredu fel modelau rôl a hyrwyddwyr yn eu meysydd, a byddant yn grymuso staff ar bob lefel i herio'r status quo ac i chwilio am gyfleoedd i wella.
3. Bydd y Prif Swyddog Digidol yn arwain y gwaith o gryfhau cymuned digidol, data a thechnoleg Llywodraeth Cymru, gan gynnwys sicrhau bod ein harbenigedd a'n hadnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol.
4. Bydd Swyddfa'r Prif Swyddog Digidol, drwy ei gwasanaeth ymgynghori bach, yn esblygu ein safonau digidol da ac yn cydweithio ar draws Llywodraeth Cymru i wella gwasanaethau.

# Ein cynllun: Trawsnewid

## Beth y mae'r trawsnewid digidol yn ei gynnig

42. Nid yw gwasanaeth digidol yn rhywbeth ychwanegol ac ymylol mwyach. Mae'r trawsnewid yn ymwneud â newid arferion a diwylliant gweithio er gwell. Rhaid inni edrych tu hwnt i ddarparu gwasanaethau a gynlluniwyd ar gyfer cyd-destun penodol, a mynd ati yn lle hynny i ailgynllunio gwasanaethau, gan gynnwys y prosesau sy'n eu hategu. Os nad yw gwasanaeth yn effeithlon, bydd angen mynd i'r afael â hynny cyn cyflwyno technoleg.
43. Mae angen canolbwyntio ar y blaenoriaethau a ganlyn:
  - i. cynllunio a darparu gwasanaethau cydgysylltiedig,
  - ii. rhoi'r rhaglenni trawsnewid mawr ar waith yn dda,
  - iii. sefydlu dull o drawsnewid ar draws Llywodraeth Cymru,
  - iv. gwella'r cydweithio rhwng gwaith polisi a gwaith cyflawni.
44. O gael y meddylfryd iawn, gallwn roi mentrau polisi ar waith sy'n trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus drwy dechnoleg. O wneud hyn mewn ffordd gyson, gyda chymorth pensaernïaeth, safonau ac offer cyffredin, gall ein helpu i ddarparu gwasanaethau sy'n ateb gofynion defnyddwyr.

## Astudiaeth achos – Trawsnewid

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn rheoleiddio ac arolygu lleoliadau i wella gofal oedolion, gofal plant a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n gyfrifol am wneud asesiadau a dyfarniadau proffesiynol am ofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol i annog darparwyr gwasanaethau i wella. Drwy brosiect trawsnewid digidol AGGCC, cyflwynwyd CaSSi, sef system fewnol i reoli cysylltiadau cwsmeriaid.

Datblygwyd CaSSi fel rhan o raglen foderneiddio gyffredinol AGGCC. Roedd ei hen system TGCh wedi dyddio ac roedd angen rhywbeth mwy hygyrch ac effeithlon i'r staff a'r rhanddeiliaid ei ddefnyddio.

Un o'r manteision yw bod gwybodaeth yn agored ac yn dryloyw er mwyn i staff weld popeth sydd ei angen arnynt i wneud eu gwaith drwy'r dangosfwrdd. Mae'r llifau gwaith yn helpu i'w tywys drwy brosesau cymhleth fesul cam. Gellir cynhyrchu dogfennau'n awtomatig a'u hanfon ar unwaith, gan roi mwy o amser iddynt ganolbwyntio ar agweddau eraill ar eu gwaith.

Lansiwyd gwasanaethau AGGCC Ar-lein y llynedd ac mae darpariaeth ar-lein y gwasanaethau hwn yn parhau i gynyddu.

## Y sefyllfa ar hyn o bryd

45. Rydym eisoes yn darparu amrywiaeth o wasanaethau digidol. Wrth fynd ati i'w datblygu, mae perchnogion y gwasanaethau hyn wedi cydweithio â'u defnyddwyr i sicrhau eu bod yn seiliedig ar eu hanghenion nhw.
46. Rydym yn cyhoeddi gwybodaeth ac rydym yn cyhoeddi ac yn defnyddio data. Mae gennym garfan fach o staff sy'n helpu eraill i ystyried sut y gall y trawsnewid digidol helpu i wella'r modd yr ydym yn darparu gwasanaethau. Mae angen gwneud mwy o hyn mewn ffordd fwy cyson a chydlynol, a rhannu arferion gorau.

## Ein nodau

47. Byddwn yn parhau i ddatblygu ac i ddarparu gwasanaethau digidol sy'n seiliedig ar yr hyn y mae defnyddwyr yn dweud bod ei angen arnynt. Byddwn yn parhau i wella ein gwasanaethau ar-lein ac i ychwanegu nodweddion eraill atynt. Byddwn hefyd yn darparu gwasanaethau newydd fel:
  - i. Profion ymaddasol ar-lein: profion darllen a rhifedd cenedlaethol ymaddasol ar-lein i blant ysgol.
  - ii. Awdurdod Cyllid Cymru: gwasanaethau digidol o ran casglu a rheoli'r dreth tirlenwi a'r dreth trafodiadau tir.
  - iii. Y cynnig gofal plant i Gymru i rieni plant 3 a 4 oed sy'n gweithio.
  - iv. System rheoli pysgodfeydd cocos: gwasanaeth digidol i gefnogi'r gwaith o reoli diwydiant cocos Cymru, gan gynnwys gwneud ceisiadau am drwyddedau ar-lein.
  - v. Y Cynllun Taleb Gwibgyswllt a Chynllun Allwedd Band Eang Cymru: gwasanaethau digidol lle gall cwsmeriaid wneud cais i gael grantiau band eang ar-lein.
48. Byddwn yn ehangu'r garfan o staff sy'n helpu pobl i ddarparu gwasanaethau'n ddigidol. Byddwn yn sefydlu Gwasanaeth Ymgynghori Digidol ochr yn ochr â'n canolfannau rhagoriaeth cydnabyddedig ar gyfer arferion digidol.

## Camau gweithredu o ran trawsnewid

5. Sefydlu Gwasanaeth Ymgynghori Digidol, pennu ein canolfannau rhagoriaeth ar gyfer arferion digidol, a manteisio arnynt yn llwyr.
6. Gwella'r gwasanaethau digidol a ddarperir ar hyn o bryd a darparu gwasanaethau digidol newydd.



# Ein cynllun: Sgiliau a'r gweithlu

## Beth y mae sgiliau digidol yn ei gynnig

49. Mae'n hollbwysig cael gweithlu sy'n meddu ar sgiliau digidol addas er mwyn darparu gwasanaethau digidol da. Drwy feithrin y sgiliau iawn a'r diwylliant iawn ymhlith staff a thrwy ddod â'r timau polisi a chyflawni yn nes at ei gilydd, bydd modd inni ddarparu gwasanaethau mewn ffordd ailadroddol sy'n seiliedig ar yr hyn y mae ei angen ar ddefnyddwyr. Mae angen inni symud at fodel lle mae pobl yn gweithredu mewn ffordd ddigidol gan ddefnyddio offer, technegau, technolegau a diwylliant y gymdeithas fodern. I lwyddo, mae angen blaenoriaethau tebyg, iaith gyffredin a methodolegau cyson arnom ni. Mae angen inni seilio ein cylchoedd polisi ar ymchwil ymhlith defnyddwyr a galluogi staff polisi i weithio mewn ffordd ystwyth.

## Y sefyllfa ar hyn o bryd

50. Mae ein sgiliau digidol yn cynyddu ac mae gennym raglen dysgu digidol ar gyfer staff. Rydym hefyd yn defnyddio gwasanaethau a ddarperir gan adrannau eraill y Llywodraeth fel Academi Ddigidol Gwasanaeth Digidol Llywodraeth y DU.

## Ein nodau

51. Sicrhau bod y sgiliau iawn ar gael yn y lle iawn ar yr adeg iawn am y pris iawn. I wneud hyn, rhaid inni wella ein gallu digidol cyffredinol drwy amryw o gamau gweithredu. Mae ein rhaglen dysgu digidol sydd eisoes ar waith yn gosod sylfaen i wella sgiliau digidol yn y sefydliad, ond rhaid inni fynd ati nawr i adeiladu ar y sylfaen hon ac i ystyried sut i gynyddu ein gallu.

52. Byddwn yn darparu sawl ffordd o ddysgu i sicrhau bod modd i staff adeiladu ar yr hyn y maent eisoes wedi'i ddysgu neu gael hyd i'r ffordd o ddysgu sydd fwyaf addas iddyn nhw. Bydd rhai o'r rhain yn cynnwys sesiynau arddull TED i ysbrydoli ac i rannu arferion gorau sefydliadau eraill, datblygu rhwydwaith bydis lle bydd cydweithwyr yn rhoi cymorth a chynghor i'w gilydd, a chynnal digwyddiadau eraill i godi proffil materion digidol yn y sefydliad. Byddwn yn creu cymorth i helpu staff i asesu eu hanghenion dysgu ac yn sicrhau bod adnoddau ar gael iddynt ddiwallu'r anghenion hyn. Byddwn yn sicrhau bod materion digidol yn cael eu hystyried yn llawn fel rhan o raglen dysgu a datblygu Llywodraeth Cymru.

O ran gallu, mae angen inni gadw, denu a meithrin talent. Byddwn yn cydweithio â Gwasanaeth Digidol Llywodraeth y DU ac eraill i roi fframwaith gyrfa ar waith ar gyfer ein staff digidol, data a thechnoleg. Bydd y fframwaith yn darparu tacsonomeg gyffredin, fframwaith tâl a recriwtio, a llwybr clir i staff gamu ymlaen yn eu gyrfa.

## **Camau gweithredu o ran sgiliau a'r gweithlu**

7. Sicrhau bod ein Rhaglen Dysgu Digidol yn datblygu er mwyn iddi barhau i ateb gofynion defnyddwyr.
8. Ymgorffori materion digidol ym mhob rhan o raglen dysgu a datblygu LIC.
9. Cyflwyno iaith gyffredin ar gyfer swyddogaethau a chyfrifoldebau'r proffesiwn digidol, data a thechnoleg o fewn LIC.
10. Sefydlu llwybrau gyrfa a strwythurau tâl fel rhan o'r gwaith o ddatblygu cynllun gweithlu ar gyfer y proffesiwn digidol.

# Ein cynllun: Gwasanaethau platfform

## Beth y mae gwasanaethau platfform yn ei gynnig

53. Rhywbeth sy'n bodoli mewn un gwasanaeth ac y gall gwasanaethau eraill ei aildddefnyddio yw platfform. Er enghraifft, os bydd cwsmeriaid yn rhoi eu cyfeiriad inni unwaith, ni fyddant yn disgwyl bod rhaid iddynt ei roi eilwaith i ddefnyddio un o'n gwasanaethau eraill.
54. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cyflwyno nifer o wasanaethau digidol newydd, neu wella nifer o'r gwasanaethau a oedd yn bodoli eisoes. Rydym hefyd wedi cymryd camau addawol i gydgysylltu'r gwasanaethau hyn – weithiau rydym yn rhannu cod, platfformau a phatrymau dylunio – ond mae cryn ffordd i fynd o hyd.

## Y sefyllfa ar hyn o bryd

55. Mae'r gwasanaethau digidol byw sydd gennym ar hyn o bryd yn aml yn cynnwys prosesau tebyg, fel gwneud taliadau i bobl, casglu arian gan bobl, cadarnhau pwy yw pobl er mwyn iddynt ddefnyddio gwasanaeth, cael hysbysiadau ac ati. Rydym hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth amdanom ni.
56. Rydym eisoes yn gwella ac yn moderneiddio llawer o'r gwasanaethau gwybodaeth a phenderfynu rydym yn eu darparu ar-lein. LLYW.CYMRU (<http://llyw.cymru/?lang=cy>) yw'r man lle gall pobl ddysgu am fusnes y Llywodraeth yng Nghymru a beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud. Mae Croeso Cymru ([www.visitwales.com/](http://www.visitwales.com/)) yn rhoi gwybodaeth ac ysbrydoliaeth ynghylch lefydd i ymweld â nhw a'u gweld yng Nghymru. Wales.com ([www.wales.com/](http://www.wales.com/)) yw porth swyddogol Cymru sy'n rhoi gwybodaeth am ble i astudio, gwneud busnes a ffeithiau a ffigurau am Gymru. Mae Busnes Cymru (<http://busnescymru.llyw.cymru>) yn cynnig gwefan aml-borth sydd â'r nod o gefnogi a thyfu busnesau ledled Cymru.
57. Rydym eisoes yn rhannu rhai gwasanaethau a chydannau cyffredin, ac rydym yn defnyddio ein trefniadau llywodraethu mewnol i helpu i gyflawni hyn. Fodd bynnag, gallwn gyflawni mwy.

## Ein nodau

58. Gwella ein modelau rhannu ac aildddefnyddio, a dymchwel y rhwystrau rhag aildddefnyddio. Byddwn yn cynyddu nifer y cydrannau y gellir eu haildddefnyddio ac yn dymchwel rhwystrau i sicrhau bod modd cyflwyno gwasanaethau newydd yn gyflymach. Byddwn hefyd yn defnyddio ac yn aildddefnyddio platfformau a grëwyd gan eraill, fel Gwasanaeth Digidol Llywodraeth y DU, lle bo'n berthnasol.

## **Camau gweithredu o ran gwasanaethau platfform**

11. Sefydlu'r gallu i ddatblygu gwasanaethau platfform gydag offer, safonau a thechnegau cyffredin.
12. Aildefnyddio platfformau presennol y llywodraeth fel GOV.Verify, Porth y Llywodraeth, GOV.Notify a GOV.Pay lle bo'n berthnasol.
13. Rhoi strategaeth gwefan Llywodraeth Cymru ar waith, gan gynnwys gwella ansawdd y ddarpariaeth a lleihau ei maint.

# Ein cynllun: Deialog ac ymgysylltu digidol

## Beth y mae deialog ac ymgysylltu digidol yn ei gynnig

59. Mae sianeli digidol yn gyfle i gael deialog ystyrion a rhyngweithiol â'r cyhoedd am gost resymol. Gall ategu'r sianeli a ddefnyddir ar hyn o bryd i lunio deddfwriaeth a pholisïau, yn ogystal â'u rhoi ar waith. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gyfle inni gynnwys holl ddinasyddion Cymru yn ein prosesau penderfynu. Gall sianeli digidol ein helpu i gyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol.
60. Mae sianeli'r cyfryngau cymdeithasol yn ffordd werthfawr o ymgysylltu. Gall offer cydweithio digidol hefyd helpu, gan atgyfnerthu a chysoni'r broses o gydweithio – boed yn fewnol, yn allanol, neu'r ddau.

## Y sefyllfa ar hyn o bryd

61. Rydym eisoes yn defnyddio sianeli digidol, fel sianeli newyddion ar-lein, Facebook, Twitter a blogiau. Ochr yn ochr ag ymgyrchoedd yn y cyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau wyneb yn wyneb, rydym yn cynnal ymgyngoriadau ar llyw.cymru yn rheolaidd. Ceir llawer o enghreifftiau cadarn lle'r ydym wedi newid neu addasu ein cynlluniau ar ôl ymgysylltu'n ddigidol a gwrando ar adborth. Mae hyn yn galonogol ac mae'n dangos ein hymrwymiad i roi'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau wrth galon yr hyn yr ydym yn ei wneud. Mae 'Y Gymru a Garem'<sup>9</sup> yn enghraifft dda sy'n darlunio'r ffordd hon o weithio.

## Ein nodau

62. Pan fydd staff yn mynd ati i wella neu i ailgynllunio ein busnes, rydym am sicrhau eu bod yn ystyried dulliau digidol yn gyntaf – p'run a ydynt yn creu polisi newydd neu'n darparu gwasanaeth uniongyrchol. Rydym hefyd am sicrhau bod gan ein staff yr offer, y sgiliau a'r hyder i ymgysylltu drwy sianeli digidol.
63. Mae'n bwysig ymgysylltu'n ddigidol, ond mae hefyd yn bwysig dewis opsiynau polisi digidol pan fo'n synhwyrol gwneud hynny. Mae angen i staff Llywodraeth Cymru ystyried opsiynau polisi digidol yn gynnar yn y broses i sicrhau eu bod yn cael eu hymgorffori ym mhob rhan o'r broses o lunio'r polisi a'u bod yn sicrhau'r budd mwyaf.

<sup>9</sup> <http://thewaleswewant.co.uk/national-conversation>

## **Camau gweithredu o ran deialog ac ymgysylltu digidol**

14. Creu a rhannu pecyn adnoddau ymgysylltu sy'n rhoi sylw i'r dechnoleg a'r arferion diweddaraf, gan gynnwys sicrhau bod yr offer ymgysylltu digidol perthnasol ar gael.
15. Defnyddio Rhwydwaith Llywodraeth Agored Cymru i herio ein gwaith o'r tu allan.

# Ein cynllun: Data da

## Beth y gall data digidol da ei gynnig

64. Mae data'n adnodd gwerthfawr a all drawsnewid y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu a'r penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud. Drwy ddarparu mynediad at ddata, gellir grymuso pobl, hybu arloesi, a sicrhau bod modd cyflawni amcanion gweithredol a pholisïau'r llywodraeth.
65. Yn yr oes ddigidol hon, rydym ni, fel unigolion ac fel sefydliadau, yn creu mwy o ddata nag erioed o'r blaen, a bydd y duedd hon yn parhau. Fodd bynnag, er bod mwy o ddata'n creu mwy o gyfleoedd, ni fydd modd achub ar y cyfleoedd hyn oni bai bod modd aildefnyddio'r data hyn nifer fawr o gyd-destunau. I wneud hyn, rhaid inni sicrhau bod ein data'n fwy hygyrch, naill ai drwy eu cyhoeddi gan ddefnyddio safonau agored, neu drwy ddefnyddio safonau data agored i rannu data rhwng sefydliadau. Nod hyn yw arwain at rannu, cysylltu a dadansoddi data mewn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol, gan ein galluogi i barhau i barchu deddfwriaeth diogelu data a phreifatrwydd.

## Y sefyllfa ar hyn o bryd

66. Mae data wrth wraidd proses benderfynu effeithiol ac maent yn ategu'r broses o ddarparu gwasanaethau digidol effeithiol. Rydym yn casglu, yn rheoli ac yn cyhoeddi ystod eang o ddata o nifer fawr o leoedd a ffynonellau. Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod ein data'n fwy hygyrch, ac i wneud defnydd mwy effeithiol ohonynt. Y llynedd, cyhoeddwyd ein cynllun data agored cyntaf sy'n amlinellu ein hymrwymadau o ran darparu mwy o ddata'n agored ac annog eraill i wneud yr un modd.
67. Rydym yn defnyddio sgiliau ac arbenigedd ein staff i gael y gorau o'n data. Rydym eisoes yn defnyddio ein sgiliau gwyddor data a dadansoddi i gynllunio senarios ac i lunio a monitro ein polisïau a'n hymyriadau.
68. Mae gennym Grŵp Data sy'n cynnwys swyddogion o bob rhan o'r sefydliad ac sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio a rheoli data'n effeithiol. Mae'r Grŵp hwn yn adrodd yn uniongyrchol i'r Grŵp Digidol a Data sy'n cael ei gadeirio gan y Gweinidog i sicrhau dilyniant rhwng yr agenda ddigidol a'r agenda ddata.
69. Rydym yn cydweithio'n agos â Rhwydwaith Llywodraeth Agored Cymru i rannu syniadau ac arferion gorau.

## StatsCymru a Lle

Sefydlwyd StatsCymru (<https://statscymru.llyw.cymru/catalogue>) yn 2003 ac mae'n darparu plattform data agored ar gyfer data ystadegol. Ar ôl diweddaru'r gwasanaeth yn 2016, caiff data eu cyhoeddi ar ffurf y gall peiriant ei darllen i sicrhau eu bod yn fwy agored nag erioed o'r blaen. Drwy ychwanegu diweddbyntiau data agored i setiau data StatsCymru, gall defnyddwyr greu dolenni byw uniongyrchol at y data, yn ogystal â chysylltu gwahanol setiau data StatsCymru at ei gilydd yn haws.

Ochr yn ochr â StatsCymru, mae'r porth-daeare Lle (<http://lle.gov.wales/home?lang=cy>), yn blatfform data agored ar gyfer data gofodol a ddatblygwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Yn wreiddiol, fe'i cynlluniwyd i ateb gofynion cynulleidfa arbenigol, ond mae'r datblygiadau diweddaraf wedi canolbwyntio ar ystod ehangach o ddefnyddwyr. Ymhlith pethau eraill, gall defnyddwyr ddewis yr haenau sydd o ddiddordeb iddynt o blith y setiau data niferus a gyhoeddir ar Lle er mwyn llunio eu mapiau eu hunain a rhannu dolenni uniongyrchol at y mapiau newydd ar wahanol lefelau o fanylder.

## Ein nodau

70. Rydym yn bwriadu parhau i ddefnyddio data fel sylfaen ar gyfer ein prosesau penderfynu a'n blaenoriaethau. Byddwn yn defnyddio adborth a barn cwsmeriaid i wella'r gwasanaethau a ddarperir gennym yn barhaus. Byddwn yn parhau i ddefnyddio offer dadansoddi a mynd ati i ddadansoddi'r cyfryngau cymdeithasol fel sylfaen ar gyfer y gwaith o lunio polisïau.
71. Byddwn yn defnyddio ein dylanwad i helpu i sicrhau bod modd defnyddio deddfwriaeth newydd y DU ar rannu data i oresgyn y problemau sy'n codi o ran rhannu data, neu i symleiddio'r prosesau sydd eisoes ar waith i sicrhau bod modd gwneud penderfyniadau mwy amserol.

## Camau gweithredu o ran data da

16. Rhoi'r ymrwymïadau a amlinellir yng Nghynllun Data Agored Llywodraeth Cymru ar waith.
17. Pennu a gwireddu'r cyfleoedd a ddarperir gan deddfwriaeth rhannu data'r DU i rannu mwy o ddata.
18. Datblygu ein sgiliau data ymhellach drwy gymryd rhan mewn rhaglenni fel Data Science Accelerator Llywodraeth y DU a *Data Science Campus* y Swyddfa Ystadegau Gwladol.



# Swyddogaethau a chyfrifoldebau

## Pwy sy'n berchen ar y cynllun?

72. Y Bwrdd. Cymeradwywyd y cynllun hwn gan y Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb dros roi'r cynllun ar waith yn llwyddiannus i'r Prif Swyddog Digidol a'i Swyddfa. Swyddogaeth Swyddfa'r Prif Swyddog Digidol yw:
- Rhoi arweiniad strategol i agenda ddigidol Llywodraeth Cymru
  - Monitro'r camau i roi'r Cynllun ar waith a darparu adroddiadau cynnydd rheolaidd
  - Cyflawni rhai o'r camau gweithredu ei hun, mewn partneriaeth ag eraill, a chynorthwyo eraill i gyflawni'r camau gweithredu eu hunain.

## Pwy fydd yn rhoi'r cynllun hwn ar waith?

73. Chi. Mae pob aelod staff yn ysgwyddo cyfrifoldeb personol dros ystyried yr hyn y mae digidol yn ei olygu i'w swydd a'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu – waeth i bwy mae'n darparu'r gwasanaeth hwnnw.
74. Ochr yn ochr â'r ddyletswydd ar bawb i gyflawni nodau'r Cynllun Gweithredu, mae Swyddfa'r Prif Swyddog Digidol yn rhoi arweiniad strategol ar gyfer yr agenda trawsnewid digidol ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Bydd yn gwneud hyn drwy arwain drwy esiampl, gan helpu i hybu gwelliannau i wasanaethau, sicrhau bod y sgiliau iawn ar gael yn y lle iawn ar yr adeg iawn, rhannu arferion gorau, a chynorthwyo eraill.

## Llywodraethu

75. Mae'r Grŵp Digidol a Data Gweinidogol, sy'n cael ei gadeirio gan y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth, yn cwrdd yn rheolaidd. Mae'r Grŵp:
- yn goruchwyllo ac yn llywio'r trawsnewid a'r broses o wella'r gwasanaethau cyhoeddus digidol a ddarperir yng Nghymru
  - yn rhoi arweiniad i sicrhau bod dewisiadau technoleg yn cefnogi gwaith cyflawni effeithiol
  - yn rhoi arweiniad o ran data a data agored, ac yn cydgysylltu'r gwaith hwn.
76. Mae'r Grŵp yn cynnwys hyrwyddwyr digidol o bob rhan o Lywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am roi arweiniad cryf, llawn gweledigaeth, o ran materion digidol. Mae'r hyrwyddwyr yn arwain camau gweithredu digidol yn eu meysydd ac yn cyflawni rôl eiriolaeth ddigidol. Caiff y Grŵp Gweinidogol ei gefnogi gan weithgorau swyddogion sy'n ystyried materion digidol, data, y gweithlu a seiber.
77. Mae llawer o gamau gweithredu yn y Cynllun hwn ac mae cyfrifoldeb amdanynt wedi'i ddsbarthu ledled y sefydliad.

78. Mae'r Prif Swyddog Digidol yn gyfrifol am sicrhau bod y camau gweithredu'n cael eu gweithredu'n effeithiol gyda chymorth yr hyrwyddwyr digidol ar draws Llywodraeth Cymru.
79. Mae'r Prif Swyddog Digidol yn atebol i'r Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus.
80. Daw'r cyllid ar gyfer cyflawni neu wella gwasanaethau digidol Llywodraeth Cymru o feysydd portffolio unigol Gweinidogion.
81. Caiff cynnydd yn erbyn y camau gweithredu yn y Cynllun ei olrhain mewn sawl ffordd yn cynnwys drwy System Adrodd ar Berfformiad Corfforaethol Llywodraeth Cymru, drwy adroddiadau gwybodaeth reoli AD, drwy arolygon staff blynyddol, drwy ymarferion ymgysylltu sefydliadol, adborth o gyrsiau hyfforddi, arolygon ad hoc ac adborth cyffredinol.
82. Y Grŵp Digidol a Data Gweinidogol sy'n llywodraethu datblygiad gwasanaethau digidol newydd. Awdurdod Cynllunio Atebion TG Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei gadeirio gan ei Phrif Swyddog Technoleg, sy'n llywodraethu technoleg a gwariant. Mae'r Awdurdod yn gweithredu'n unol â set o egwyddorion a safonau technoleg sydd wedi'u nodi yn Strategaeth TGCh Llywodraeth Cymru.